WG35.S.114

# ODLAU HIRAETH

AR OL

# MISS KATE LEWIS,

## . . GREEN HILL; . .

## BU FARW GORPHENAF 5ED, 1904,

## . . YN 19 MLWYDD OED. . .

*Ei geiriau olaf ydoedd*—" 'R WY'N MYN'D."

'R WY'N myn'd, a myn'd i'r nefoedd,
I gartref Duw a'r saint,
O dwrf y byd, a'i boen, a'i gur,
Cael rhan o'r nefol fraint;
'R wy'n myn'd er gwel'd yr engyl
A gwên Myfanwy fach,
A myn'd a wnaf, a dyna pa'm—
Gwlad yw mae pawb yn iach.

'R wy'n myn'd, a myned ydwyf,
Trwy'r dyffryn tywyll du,
Nid ofnaf ddim, mae'r ffordd yn glir,
'R wy'n gwel'd fy Iesu cu;
Ei bresenoldeb dwyfol
A nertha fi drwy'r glyn,
A thrwy yr oerion donau lu
Nes cyrhaedd Seion Fryn.

'R wy'n myn'd, a myn'd i aros,
I wlad y mawl a'r gân,
Ac aros gyda Iesu Grist
Mewn gwisg a fydd yn lân;
Caf yno dynu tànau
Yr euraidd delyn gu,
A chanu am y gongcwest gaed
Trwy lwybrau 'r anial du.

'R wy'n mynd, O! peidiwch wylo
Tra 'r ydych yn y glyn,
Am enyd fer yn blaenu 'r wyf
I'r etholedig fryn;
Cawn eto gwrddyd yno
Ar hardd orielau'r nef,
I gyd-fwynhau holl freintiau'r wlad
Mewn moliant iddo ef.

Pa le mae'r blodyn prydferth
A gollwyd ar y llawr?
Ai 'r engyl glân a'i dygodd hi
I wlad y bythol wawr?
"Nyni," sibrydai 'r engyl,
"Ddaeth yma atoch chwi,
Gan fyn'd a Kate i erddi'r nef
I aros gyda ni."

Ow! caled ydoedd hebrwng
Y dadfeiliedig dŷ,
I'r gwely oer i orphwys mwy
Nes daw y floedd o fry;
Ond ynwyf y mae adgof
Wna i mi lawenhau,
Mai myned ydoedd ar ei hynt
I'r nef i'w gwir fwynhau.

Er hyn, mae ynwyf hiraeth
Ar ol ei cholli hi,
Trwy fod ei chân fu gynt mor bêr
Yn ddystaw gyda ni;
Rhyw ddydd cawn eto glywed
Ei chân 'r ol glanio draw,
Yn nghôr y nef mewn nodau pur
Yn canu yn ddi-daw.

O! Iesu tyner, sycha
Holl ddagrau'r teulu hyn,
A rho dy wenau iddynt hwy
Yn nghaddug du y glyn;
Fel gwelant law dy gariad
Yn estyn iddynt hedd,
I'w nerthu hwy i rodio 'n bur
Yr ochr hyn i'r bedd.

***Maenygroes.*** **D. N. JONES.**

Beth yw'r caddug sy'n gorchuddio
Ardal dawel Maenygroes?
Beth yw'r rheswm fod pob mynwes
Fel yn plygu dan ei loes?
Etyb pawb yn wlyb eu gruddiau,
Ac yn glwyfus dan eu briw:
"Mae un arall wedi 'n gadael
Am lonyddwch Gwynfa wiw."

Er na welodd yn ei bywyd
Ugain haf yn glasu'r llawr,
Addfed oedd i'r pur ddedwyddwch
Yn y tragwyddolfyd mawr;
Yno mae yn awr mewn cydgord
Â'r angelion pur eu llef,
Ac yn chwyddo 'r anthem felus
Am Ei ddwyfol gariad Ef.

Carai adnod, carai emyn,
Carai gân, fel adar Duw,
Cana heddyw burach nodau
Pan yn nghartref cân yn byw:
Mi ddych'mygaf fry ei chlywed
Yn y pur seraphaidd gôr,
Yn ymarllwys ei phêr seiniau
Yn ddiderfyn fel y môr.

Yn yr ysgol ar y Sabbath,
Gwâg ni welwyd byth o'i sedd
Pan oedd gwynder nefanedig
Yn sancteiddio 'i thyner wedd;
Ymhyfrydai yn y gorchwyl
O gael darllen am y Gwr,
Wedi hyn fu yn cydrodio
Yn ei chwmni drwy y dwr.

Rhodio 'r oedd er's misoedd bellach,
Yn nhawelwch Moab wlad,
Dim ond culfor bychan angau
Rhyngddi hi â thy ei Thad;
Er ein bod yn ymwybodol
Fod ei haul bron myn'd i lawr,
Pryder lanwai ein calonau
Pan y daeth ei holaf awr.

Chwi rieni ymgysurwch
Yn y gobaith y cewch gwrdd
Yn y wlad lle na ddaw'r gelyn
Byth i gipio neb i ffwrdd;
Bydded fod rhyw oruchwyliaeth
Drom fel hyn yn fodd i'n dwyn
Yn fwy agos at y Prynwr,
A fu farw er ein mwyn.

***Maenygroes.*** **E. JONES.**

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

1086

X205311184